Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiadau Ariannol Rhagarweiniol SAAR

Cynnwys

Ail-ddatganiad Gwybodaeth Ariannol dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR)	3
Mantolen y Grŵp ar 29 Mawrth 2004	6
Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005	7
Datganiad incwm a gwariant y Grŵp a gydnabuwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005	7
Mantolen y Grŵp ar 27 Mawrth 2005	8
Datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 27 Mawrth 2005	9
Mantolen y Grŵp ar 28 Mawrth 2005	10
Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 26 Medi 2004	11
Mantolen y Grŵp ar 26 Medi 2004	12
Datganiad llif arian y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 26 Medi 2004	13
Polisi cyfrifeg	14
Barn archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005	19
Barn archwilio ar gyfer y fantolen ar 28 Mawrth 2005	20
Barn archwilio ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben 26 Medi 2004	21

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Ail-ddatganiad gwybodaeth ariannol dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR)

Cyflwyniad

Mae blwyddyn ariannol Daliadau'r Post Brenhinol ccc (Post Brenhinol) yn dod i ben ar y Sul olaf ym mis Mawrth.

Mewn blynyddoedd blaenorol, paratowyd y cyfrifon dan Egwyddorion Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DG (GAAP DG). O flwyddyn ariannol 2005-06 bydd y Post Brenhinol yn cynhyrchu ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) fel y mabwysiadwyd gan Undeb Ewrop (UE).

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut adroddir ar berfformiad ariannol a sefyllfa flaenorol y Grŵp dan SAAR. Mae hyn yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol a ail-ddatganwyd ar sail SAAR:

- Mantolen gyfunol y Grŵp ar 29 Mawrth 2004, dyddiad trosiant y Grŵp;
- Datganiad incwm y Grŵp, datganiad incwm a gwariant a gydnabuwyd (SORIE) a datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005, a mantolen ar 27 Mawrth 2005;
- Mantolen y Grŵp ar 28 Mawrth 2005 yn adlewyrchu mabwysiadu IAS32 ac IAS39 ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06; a
- Datganiad incwm, SORIE a datganiad llif arian y Grŵp ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 26 Medi 2004, a mantolen ar 26 Medi 2004.

Paratowyd y wybodaeth ar sail SAAR y disgwylir y byddant yn berthnasol ar 26 Mawrth 2006. Mae SAAR yn destun arolwg parhaus neu ddiwygiad gan gyfarwyddyd dehongliadol gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) ac felly maent yn dal yn destun newid. Diweddarir y datganiadau ariannol a'u hail-ddatgan fel y bo angen ar gyfer unrhyw newidiadau o'r fath os byddant yn digwydd.

Sylfaen paratoi

Paratowyd datganiadau ariannol ail-ddatganedig y Grŵp yn unol â SAAR a gyhoeddwyd a'u mabwysiadu gan UE ar y dyddiad hwnnw ac maent yn defnyddio'r confensiwn cost hanesyddol ac eithrio offerynnau ariannol deilliadol sydd wedi eu mesur ar werth teg.

Nodir y rheolau ar gyfer mabwysiadu SAAR am y tro cyntaf yn SAAR 1 'First Time Adoption of International Financial Reporting Standards'. Mae SAAR yn gofyn i gorff gydymffurfio gyda phob SAAR sy'n weithrediad ar y dyddiad adrodd ar gyfer y set gyntaf o ddatganiadau ariannol SAAR. Fel egwyddor gyffredinol, mae SAAR1 yn gofyn i'r safonau sy'n effeithiol ar y dyddiad adrodd gael eu defnyddio'n ôl-weithredol. Fodd bynnag, gwaherddir defnydd ôl-weithredol mewn rhai meysydd, yn enwedig lle byddai defnydd ôl-weithredol yn gofyn am farn gan reolwyr ar ôl i ganlyniad trafodaeth benodol fod yn hysbys eisoes. Yn ychwanegol, caniateir nifer o eithriadau opsiynol cyfyngedig rhag cymhwysiad ôl-weithredol llawn SAAR lle tybir bod cost cydymffurfio yn mynd i fod yn fwy na'r manteision i ddefnyddwyr. Lle'n berthnasol, nodir yr opsiynau a ddewiswyd gan y rheolwyr yn y nodiadau isod.

Yr effaith ar ganlyniadau'r Grŵp fel yr adroddwyd ar 27 Mawrth 2005 yw lleihau elw cyn trethi o £207m i £167m.

Manylir y newidiadau arwyddocaol o ganlyniad i fabwysiadu SAAR isod:

Ailddosbarthiadau mantolen

I gynorthwyo gyda chymharu, mae fformat GAAP DG wedi ei newid i'r fformant SAAR cyn belled ag y bo modd o wybodaeth a oedd ar gael, a gyhoeddwyd eisoes. Mae'r ailddosbarthiadau mantolen sy'n ofynnol gan SAAR fel a ganlyn:

i) Mae IAS1 yn ei gwneud yn ofynnol bod asedion anghyffwrddadwy yn cael eu gwahanu oddi wrth ewyllys da ar y fantolen. Ail-ddosbarthwyd £107m o asedion anghyffwrddadwy i ewyllys da ym Mawrth 2004 (Mawrth 2005 £129m);

ii) Ym Mawrth 2004 cynhwysir dyledwyr hirdymor a gynhwyswyd yn flaenorol o fewn masnach a derbyniadau eraill mewn asedion cyfredol dan GAAP DG, o fewn asedion anghyfredol dan SAAR (Mawrth 2005 £14m);

iii) Hefyd, cynhwyswyd ased treth a ohiriwyd o £nil ym Mawrth 2004 (Mawrth 2005 £16m) gyda masnach a derbyniadau eraill mewn asedion cyfredol dan GAAP DG ac fe'i datgelir ar wahân nawr o fewn asedion anghyfredol dan SAAR;

iv) Ym Mawrth 2004 mae masnach a thaliadau eraill dan GAAP DG yn cynnwys £10m (Mawrth 2005 £dim) a £53m (Mawrth 2005 £375m) ar gyfer treth incwm sy'n daladwy a benthyciadau banc, yn eu tro,. Datgelir y ffigurau hyn ar wahân fel atebolrwydd cyfredol dan SAAR;

v) Mae SAAR yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaethau sy'n cael eu setlo o fewn blwyddyn i ddyddiad y fantolen yn cael eu dangos o fewn atebolrwydd cyfredol. Mae hyn wedi arwain at ail-ddosbarthu £408m ym Mawrth 2004 (Mawrth 2005 £124m) o atebolrwydd anghyfredol;

vi) Mae atebolrwydd a ohiriwyd ym Mawrth 2004 hefyd wedi eu cynnwys mewn darpariaethau dan GAAP DG a dangosir £96m (Mawrth 2005 £94m) ar wahân fel atebolrwydd anghyfredol dan SAAR;

vii) Cynhwysir benthyciadau gyda llogau dan GAAP DG mewn "taliadau eraill" ym Mawrth 2004. Datgelir y rhain ar wahân dan SAAR ac mae £507m (Mawrth 2005 £506m) wedi ei ail-ddosbarthu o fewn atebolrwydd anghyfredol; a

Ailddosbarthiad gwybodaeth ariannol dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) (parhad)

viii) Caiff asedion ac atebolrwydd gweithrediadau tramor eu trosi ar raddfa rheoliad y gyfnewidfa ar ddyddiad y fantolen. Caiff datganiadau incwm gweithrediadau tramor eu trosi ar y gyfradd gyfnewid ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd. Mae gwahaniaethau cyfnewid ar ôl trethi yn deillio o'r trosiad, ers dyddiad trosi i SAAR, yn cael ei gymryd yn uniongyrchol fel elfen ecwiti ar wahân. Nid oes angen ail-ddosbarthu ym Mawrth 2004 gan fod y Grŵp wedi dewis peidio â chymhwyso IAS 21 yn ôl-weithredol. Yr effaith ym Mawrth 2005 yw £8m.

IAS 19 --- Budd-daliadau gweithwyr

Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod costau gweithredu ac ariannu cynlluniau pensiwn budd-daliadau a ddiffiniwyd, ynghyd â budd-daliadau gweithwyr eraill, yn y datganiad incwm. Mae'r safon yn caniatáu nifer o opsiynau ar gyfer cydnabod enillion a cholledion actiwarial. Mae'r Post Brenhinol wedi mabwysiadu eithriad trosiannol SAAR 1 a chydnabod y diffyg pensiwn actiwarial llawn ar ddyddiad trosi. Bydd y busnes yna'n cydnabod unrhyw enillion a cholledion actiwarial ar unwaith yn y SORIE. Mae'r opsiwn i gyfrif am enillion a cholledion actiwarial yn y modd hwn yn ddiwygiad i IAS 19 'Actuarial Gains and Losses, Group Plans and Disclosures'. Mae'r newid hwn yn dod i rym ar 1 Ionawr 2006 a chaniateir mabwysiadu'n gynt.

Effaith y safon ar y fantolen ar ddyddiad trosi yw cydnabod atebolrwydd pensiwn o ryw £4.4 biliwn ar 29 Mawrth 2004 ac atebolrwydd o £4.0 biliwn ar 27 Mawrth 2005. At hyn, mae rhagdaliadau pensiwn o £770m (2005 £834m) wedi eu dad-gydnabod.

Effaith y safon ar elw gweithredol cyn eitemau eithriadol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 27 Mawrth 2005 yw gostyngiad o £98m gyda chynnydd i logau ac incwm ariannol arall o £59m.

Dan GAAP DG, ni chronnodd y Post Brenhinol ar gyfer gwyliau blynyddol heb ei gymryd ar yr hanner blwyddyn nac ar ddiwedd y flwyddyn. Dan IAS 19 mae angen i'r Post Brenhinol gronni ar gyfer yr holl absenoldeb byrdymor gyda iawndal sydd wedi hel megis hawl i wyliau a enillwyd ond heb ei gymryd ar y fantolen. Effaith IAS 19 ar fantolen y Post Brenhinol yw cydnabod croniad gwyliau blynyddol o £40m ar 29 Mawrth 2004. Mae hefyd tâl o £2m i ddatganiad incwm Mawrth 2005 yn adlewyrchu'r cynnydd yn y croniad ar ddiwedd y flwyddyn.

SAAR 3 --- Cyfuniadau busnes, IAS 36 Amharu asedion ac IAS 38 Asedion anghyffwrddadwy

Mae SAAR 3 yn gwahardd cyfrifeg uno ac amorteiddio ewyllys da. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol bod ewyllys da'n cael ei gario ar gost gydag arolygon amharu yn flynyddol a hefyd lle mae awgrymiadau na fydd y gwerth cario yn adferadwy.

Fel y caniateir yn SAAR 1 mae'r Post Brenhinol wedi dewis cymhwyso SAAR 3 yn ôl-weithredol o ddyddiad trosi ac wedi dewis peidio ag ail-ddatgan cyfuniadau busnes blaenorol. Felly, datganir ewyllys da yn y fantolen drosiannol ar ei werth cario GAAP DG o £107m gydag amorteiddiad dilynol yn y flwyddyn i 27 Mawrth 2005 yn cael ei wyrdroi. Y cynnydd mewn elw gweithredol o wyrdroi amorteiddiad ewyllys dda yw £11m ar gyfer y flwyddyn i 27 Mawrth 2005.

Dan SAAR 3, bydd adnabod asedion ac atebolrwydd o fewn busnesau a gaffaelwyd yn cynnwys asedion anghyffwrddadwy na chydnabuwyd yn flaenorol dan GAAP DG. Y prif asedion anghyffwrddadwy a gaiff eu cydnabod ar wahân i ewyllys da ar gaffaeliad fydd contractau a pherthnasau cwsmeriaid. Bydd yr asedion anghyffwrddadwy yn cael eu prisio am bob caffaeliad ar ôl 29 Mawrth 2004 ac yn cael eu hamorteiddio dros eu hoes economaidd debygol.

Y prif gaffaeliadau yn 2004-05 oedd DGE Firenze, DGE Vicenza a GLS Poland. Daeth gwerth y contract cwsmeriaid a pherthynas cwsmeriaid ar gyfer y busnesau hyn i £6m, gydag oes economaidd o 2 i 4 blynedd. At hyn, daeth Romec Limited cyd-fenter flaenorol, a NDC 2000 Limited, is-gwmni blaenorol, yn is-gwmnïau'r Grŵp. Nid yw caffaeliad Romec Limited na NDC 2000 Limited wedi arwain at adnabod unrhyw asedion anghyffwrddadwy.

IAS 12 --- Treth incwm

Mae IAS 12 yn ei gwneud yn ofynnol cyfrifo treth a ohiriwyd yn seiliedig ar wahaniaethau dros dro, yn hytrach nag amseru gwahaniaethu dan GAAP DG. Diffinnir gwahaniaethau dros dro fel y gwahaniaeth rhwng gwerth cario asedion ac atebolrwydd a'u sylfaen treth. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol bod asedion ac atebolrwydd yn cael eu datgelu ar wahân ar fantolen y Grŵp.

Tra nad yw mabwysiadu IAS 12 ar ei ben ei hun yn arwain at unrhyw ail-ddatganiad o dâl treth y Grŵp, mae'r trethi a ohiriwyd wedi eu hail-asesu gan gymryd i ystyriaeth addasiadau cyfrifo eraill yn deillio o'r trosiad i SAAR. Lleihawyd yr atebolrwydd trethi a ohiriwyd ym Mawrth 2004 o £96m i £1m oherwydd dadgydnabod y rhagdaliadau pensiwn a chydnabod atebolrwydd pensiwn budd-daliadau a ohiriwyd. Yn yr un modd, ar fantolen Mawrth 2005 cydnabyddir £318m ychwanegol o asedion treth a ohiriwyd a gostyngiad yn yr atebolrwydd treth a ohiriwyd o £89m.

IAS 7 --- Datganiadau llif arian

Dan GAAP DG mae'r datganiad llif arian yn canolbwyntio ar symudiadau mewn arian gyda manylion y symudiadau dan saith pennawd. Dan IAS 7 caiff y ffocws ei ehangu i arian a chyferth-ag-arian ac fe ddosbarthir manylion dan dri phennawd - gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Nid yw'r trosiad yn newid llif arian y Post Brenhinol, ond mae cyflwyno gwybodaeth ar y datganiad llif arian yn newid. Mae buddsoddiadau o £316m a £450m ym Mawrth 2004 a Mawrth 2005 yn cael eu dosbarthu nawr fel cyfwerth-ag-arian. Cânt eu cysoni o fewn y datganiad llif arian yn hytrach na'u datgelu dan y pennawd "rheoli adnoddau hylifol" dan GAAP DG. Mae'r Grŵp yn parhau i gynhyrchu ei ddatganiad llif arian gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol.

SIC 15 --- Prydlesi gweithredol - Cymhellion

Mae'r dehongliad hwn yn gofyn bod yr holl gymhellion ar gyfer cytuno prydles weithredu newydd neu wedi ei adnewyddu adeg cychwyn y brydles, yn hytrach nag o'r dyddiad pan ddefnyddir y brydles am y tro cyntaf. Rhaid i brydlesai gydnabod manteision cyfanrif cymhellion fel gostyngiad cost rhent dros gyfnod y brydles, ar sail llinell syth.

Mae'r Post Brenhinol wedi cydnabod cymhellion prydles o £8m ar ddyddiad trosi ym Mawrth 2004. Mae hwn wedi ei amorteiddio gan £1m yn ystod 2004-05 gan adael balans o £7m ar y fantolen ar 27 Mawrth 2005.

Ailddosbarthiad gwybodaeth ariannol dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) (parhad)

IAS 32 a 39 Offerynnau ariannol

Mae gofynion SAAR yn wahanol i GAAP DG mewn nifer o feysydd. Mae'r newidiadau sy'n effeithio'r Post Brenhinol yn cynnwys offerynnau 'gwarchod' a buddsoddiadau. Mae'r Post Brenhinol wedi manteisio ar yr eithriad i beidio â mabwysiadu IAS 32 a 39 tan flwyddyn ariannol 2005-06.

Offerynnau 'gwarchod'

Dan IAS 39, caiff yr holl ddeilliannau eu cydnabod ar werth teg gyda'r nodyn cyfatebol wedi ei fwcio i'r gronfa warchod mewn ecwiti ar gyfer yr offerynnau hynny sy'n ateb y gofyniad am gyfrifo gwarchod. Mae offerynnau deilliannol o £9m mewn asedion a £1m mewn atebolrwydd wedi eu cydnabod ar werth teg ar 28 Mawrth 2005.

Dan GAAP DG, roedd enillion a cholledion cyfnewidfa dramor ar raglen warchod heb ei setlo yn cael eu cario ar y fantolen. Ar ôl cyflwyno IAS 32 a 28, mae colledion ar 28 Mawrth 2005 yn dod i £11m, wedi eu diddymu yn erbyn cronfeydd enillion a cholledion.

Buddsoddiadau

Dan GAAP DG mae buddsoddiadau'n cael eu dal ar gost llai'r ddarpariaeth ar gyfer unrhyw amhariad parhaol. Dan SAAR, caiff busddodiadau eu cydnabod i ddechrau ar werth teg. Yr effaith ar 28 Mawrth 2005 yw ail-gategoreiddio'r £691m mewn buddsoddiadau ar y fantolen fel £134m o "Daliwyd ar gyfer buddsoddiadau masnach" a £557m o "Daliwyd ar gyfer buddsoddiadau aeddfedrwydd".

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mantolen y Grŵp ar 29 Mawrth 2004

	GAAP DG £m	Ailddosbarthiad £m	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Cyfwerth-ag-arian IAS 7 £m	Cymhellion Prydles SIC 15 £m	SAAR £m
Asedion anghyfredol							
Eiddo, offer a pheiriannau	1,550						1,550
Ewyllys da		107					107
Asedion anghyffwrddadwy	123	(107)					16
Asedion ariannol/buddsoddiadau	138						138
Derbyniadau eraill	-	14					14
	1,811	14	-	-	-	-	1,825
Asedion cyfredol							
Llechresi	32						32
Masnach a derbyniadau eraill	1,955	(14)	(770)				1,171
Asedion ariannol/buddsoddiadau	999				(316)		683
Arian a chyfwerth-ag-arian	1,049				316		1,365
	4,035	(14)	(770)	-	-	-	3,251
Asedion anghyfredol a ddelir i'w gwerthu							
Cyfanswm asedion	5,846	-	(770)	-	-	-	5,076
Atebolrwydd presennol							
Masnach a thaliadau eraill	(2,590)	63		(40)		(1)	(2,568)
Treth incwm yn daladwy	-	(10)					(10)
Atebolrwydd ariannol – gorddrafft banc a benthyciadau	-	(53)					(53)
Darpariaethau byrdymor	-	(408)					(408)
	(2,590)	(408)	-	(40)	-	(1)	(3,039)
Atebolrwydd anghyfredol							
Atebolrwydd ariannol – benthyciadau gyda llogau a benthyciadau	-	(507)					(507)
Ymrwymiadau budd-daliadau ymddeol	-		(4,394)				(4,394)
Darpariaethau hirdymor	(575)	504					(71)
Atebolrwydd treth a ohiriwyd	-	(96)	95				(1)
Taliadau eraill	(543)	507				(7)	(43)
	(1,118)	408	(4,299)	-	-	(7)	(5,016)
Cyfanswm atebolrwydd	(3,708)	-	(4,299)	(40)	-	(8)	(8,055)
Asedion net/(atebolrwydd)	2,138	-	(5,069)	(40)	-	(8)	(2,979)
Ecwiti							
Enillion a gadwyd	999		(5,069)	(40)		(8)	(4,118)
Cronfa warchod	-						-
Trosi arian tramor	-						-
Cronfeydd eraill*	1,139						1,139
Ecwiti a ellir ei briodoli i ddaliwr ecwiti rhiant-gwmni	2,138	-	(5,069)	(40)	-	(8)	(2,979)
Diddordeb lleiafrifol	-	-	-	-		-	
Cyfanswm ecwiti	2,138	-	(5,069)	(40)	-	(8)	(2,979)

*Mae'r cronfeydd eraill yn cynnwys cronfa wrth gefn y Post Brenhinol £765m, cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig £311m ac Arall £63m.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005

	GAAP DG £m	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19 £m	Ewyllys da IFRS 3 £m	Is-gwmnïau/C-F IFRS 3/ IAS 28/31 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Cymhellion Prydles SIC 15 £m	SAAR £m
Refeniw	**8,956**						**8,956**
Costau pobl	**(5,038)**	**(98)**			**(2)**		**(5,138)**
Cyflogau	**(4,328)**				(2)		**(4,330)**
Pensiynau	**(391)**	(98)					**(489)**
Nawdd Cymdeithasol	**(319)**						**(319)**
Costau dosbarthu a chludo	**(879)**						**(879)**
Costau gweithredu eraill	**(2,674)**		8			1	**(2,665)**
Cyfran elw o is-gwmnïau a chyd-fentrau	**34**		3	(9)			**28**
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**399**	**(98)**	**11**	**(9)**	**(2)**	**1**	**302**
Eitemau eithriadol gweithredol	**(277)**						**(277)**
Elw gweithredol	**122**	**(98)**	**11**	**(9)**	**(2)**	**1**	**25**
Colled ar werthu ymgymeriad atodol	**(3)**						**(3)**
Elw ar werthu eiddo, offer a pheiriannau	**70**						**70**
Elw cyn ariannu a threthi	**189**	**(98)**	**11**	**(9)**	**(2)**	**1**	**92**
Costau ariannu	**(42)**						**(42)**
Cyllid incwm	**60**	59		(2)			**117**
Elw cyn trethi	**207**	**(39)**	**11**	**(11)**	**(2)**	**1**	**167**
Trethi	**28**	(55)		11			**(16)**
Elw ar gyfer y cyfnod	**235**	**(94)**	**11**	**-**	**(2)**	**1**	**151**
Elw yn cael ei briodoli i:							
Ddaliwr ecwiti'r rhiant-gwmni	**235**	(94)	11	-	(2)	1	**151**
Diddordeb lleiafrifol	**-**	-	-	-	-	-	**-**

Datganiad incwm a gwariant y Grŵp a gydnabuwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005

	Adroddwyd eisoes dan GAAP DG £m	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19 £m	Ewyllys da IAS 38 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Cymhellion Prydles SIC 15 £m	Ail-ddatganiad dan SAAR £m
Elw ar gyfer y cyfnod	235	(94)	11	(2)	1	151
Gwahaniaethau trosi ar fuddsoddiadau net arian tramor	8					8
Enillion a cholledion actiwarial ar gynlluniau budd-daliadau a ddiffiniwyd		410				410
Trethi ar eitemau a gymerwyd yn uniongyrchol i ecwiti		367				367
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabuwyd ar gyfer y cyfnod	**243**	**683**	**11**	**(2)**	**1**	**936**
A briodolir i:						
Ddaliwr ecwiti'r rhiant-gwmni						**932**
Diddordeb lleiafrifol						**4**

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mantolen y Grŵp ar 27 Mawrth 2005

	GAAP DG	Ailddosbarthiad	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19	Ewyllys da IFRS 3	Asedion Anghyffwrddadwy	Tâl gwyliau IAS 19	Cyfwerth-ag-arian IAS 7	Cymhellion prydles	SAAR
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Asedion anghyfredol									
Eiddo, offer a pheiriannau	**1,591**								**1,591**
Ewyllys da	**-**	129		8	(6)				**131**
Asedion anghyffwrddadwy	**144**	(129)			6				**21**
Asedion riannol/buddsoddiadau	**135**			3					**138**
Derbyniadau eraill	**-**	14							**14**
Asedion trethi a ohiriwyd	**-**	16	318						**334**
	1,870	**30**	**318**	**11**	**-**	**-**	**-**	**-**	2,229
Asedion cyfredol									
Llechresi	**27**								**27**
Masnach a derbyniadau eraill	**1,955**	(30)	(834)						**1,091**
Asedion riannol/buddsoddiadau	**1,141**						(450)		**691**
Arian a chyfwerth-ag-arian	**890**						450		**1,340**
	4,013	**(30)**	**(834)**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	3,149
Asedion anghyfredol a ddelir ar werth	**-**								**-**
Cyfanswm asedion	**5,883**	**-**	**(516)**	**11**	**-**	**-**	**-**	**-**	5,378
Atebolrwydd cyfredol									
Masnach a derbyniadau eraill	**(2,684)**	375				(42)		(1)	**(2,352)**
Atebolrwydd ariannol – gorddrafft banc a benthyciadau	**-**	(375)							**(375)**
Darpariaethau byrdymor	**-**	(124)							**(124)**
	(2,684)	**(124)**	**-**	**-**	**-**	**(42)**	**-**	**(1)**	(2,851)
Atebolrwydd anghyfredol									
Atebolrwydd ariannol – benthyciadau gyda llogau	**-**	(506)							**(506)**
Ymrwymiadau budd-daliadau ymddeol	**-**		(3,958)						**(3,958)**
Darpariaethau hirdymor	**(266)**	218							**(48)**
Atebolrwydd trethi a ohiriwyd		(94)	89						**(5)**
Taliadau eraill	**(548)**	506						(6)	**(48)**
	(814)	**124**	**(3,869)**	**-**	**-**	**-**	**-**	**(6)**	(4,565)
Cyfanswm atebolrwydd	**(3,498)**	**-**	**(3,869)**	**-**	**-**	**(42)**	**-**	**(7)**	(7,416)
Asedion/(atebolrwydd) net	**2,385**	**-**	**(4,385)**	**11**	**-**	**(42)**	**-**	**(7)**	(2,038)
Ecwiti									
Enillion a gadwyd	**1,346**	(8)	(4,385)	11		(42)		(7)	**(3,085)**
Cronfa warchod	**-**								**-**
Trosiadau arian tramor	**-**	8							**8**
Cronfeydd eraill*	**1,035**								**1,035**
Ecwiti a briodolir i ddaliwr ecwiti	**2,381**	**-**	**(4,385)**	**11**	**-**	**(42)**	**-**	**(7)**	(2,042)
Diddordeb lleiafrifol	4	-	-	-	-	-	-	-	**4**
Cyfanswm ecwiti	**2,385**	**-**	**(4,385)**	**11**	**-**	**(42)**	**-**	**(7)**	(2,038)

*Mae'r cronfeydd eraill yn cynnwys cronfa wrth gefn y Post Brenhinol £801m, cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig £171m ac Arall £63m.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 27 Mawrth 2005

	GAAP DG £m	Datganiad llif arian IAS 7 £m	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19 £m	Ewyllys da IFRS 3 £m	Is-gwmnïau/C-F IAS 28/31 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Cymhellion prydles SIC 15 £m	Ail-ddatganiad SAAR £m
Llif arian o weithgareddau gweithredol								
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol*	399		(98)	11	(9)	(2)	1	302
Danbrisio ac amorteiddiad	156			(8)				148
Symudiadau anariannol eraill (elw o is-gwmnïau a chyd-fentrau)	(34)			(3)	9			(28)
	521	-	(98)	-	-	(2)	1	422
Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol	(486)		98			2	(1)	(387)
Taliadau ariannol mewn perthynas ag eitemau eithriadol	(255)							(255)
Arian a ddefnyddiwyd mewn gweithrediadau	(220)	-	-	-	-	-	-	(220)
Treth incwm a adenillwyd	13							13
All-lif ariannol net o weithgareddau gweithredol	(207)	-	-	-	-	-	-	(207)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi								
Elw o werthu eiddo, offer a pheiriannau	95							95
Difidendau a dderbyniwyd gan is-gwmnïau a chyd-fentrau	19							19
Incwm buddsoddiad (llogau) a dderbyniwyd	52							52
Prynu eiddo, offer a pheiriannau	(219)							(219)
Talu ystyriaeth a ohiriwyd mewn perthynas â chaffaeliadau blynyddoedd blaenorol	(2)							(2)
Prynu asedion ariannol eraill	(142)	134						(8)
All-lif ariannol net o weithgareddau buddsoddi	(197)	134	-	-	-	-	-	(63)
All-lif ariannol net cyn gweithgareddau ariannu	(404)	134	-	-	-	-	-	(270)
Llifau arian o weithgareddau ariannu								
Talu atebolrwydd prydles ariannu	(34)							(34)
Ad-dalu benthyciadau	(4)							(4)
Costau cyllid (llogau) a dalwyd	(42)							(42)
Benthyciadau newydd	325							325
Mewnlif ariannol net o weithgareddau ariannu	245	-	-	-	-	-	-	245
Gostyngiad net mewn arian a chyfwerth-ag-arian	(159)	134						(25)
Arian a chyfwerth-ag-arian ar ddechrau cyfnod **	1,049	316						1,365
Arian a chyfwerth-ag-arian ar ddiwedd y cyfnod	890	450	-	-	-	-	-	1,340

*Mae'r elw gweithredol cyn eitemau eithriadol o £399m ar ôl cymryd i ystyriaeth £34m elw o is-gwmnïau a chyd-fentrau. Mae hyn yn cymharu gydag elw gweithredol a gyhoeddwyd o £365m dan GAAP DG, a oedd cyn cymryd i ystyriaeth yr elw £34m o is-gwmnïau a chyd-fentrau.

**Diffinnir arian a chyfwerth-ag-arian dan GAAP DG fel arian, tra - dan SAAR - mae arian a chyfwerth-ag-arian yn cynnwys buddsoddiadau gyda dyddiad aeddfedu lai na thri mis ar ddyddiad caffaeliad a chronfeydd y farchnad ariannol yn unol â'r polisi cyfrifeg a ddiwygiwyd. Mae'r addasiad o £450m yn adlewyrchu ailddosbarthiad buddsoddiadau byrdymor priodol fel cyfwerth-ag-arian.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mantolen y Grŵp ar 28 Mawrth 2005

	SAAR £m	IAS 32 & IAS 39 £m	Mantolen agoriadol £m
Asedion anghyfredol			
Eiddo, offer a pheiriannau	1,591		1,591
Ewyllys da	131		131
Asedion anghyffwrddadwy	21		21
Asedion ariannol/buddsoddiadau	138		138
Derbyniadau eraill	14		14
Ased trethi a ohiriwyd	334		334
	2,229	**-**	**2,229**
Asedion presennol			
Llechresi	27		27
Masnach a derbyniadau eraill	1,091	(11)	1,080
Asedion ariannol/buddsoddiadau	691	(691)	-
Daliwyd ar gyfer buddsoddiadau masnachu	-	134	134
Daliwyd ar gyfer buddsoddiad aeddfedrwydd	-	557	557
Arian a chyfwerth-ag-arian	1,340		1,340
Deilliannau	-	9	9
	3,149	**(2)**	**3,147**
Asedion anghyfredol a ddelir ar werth	-		
Cyfanswm asedion	**5,378**	**(2)**	**5,376**
Atebolrwydd cyfredol			
Masnach a thaliadau eraill	(2,352)		(2,352)
Atebolrwydd ariannol – benthyciadau gyda llogau a benthyciadau	(375)		(375)
Darpariaethau byrdymor	(124)		(124)
Deilliannau	-	(1)	(1)
	(2,851)	**(1)**	**(2,852)**
Atebolrwydd anghyfredol			
Atebolrwydd ariannol – benthyciadau gyda llogau a benthyciadau	(506)		(506)
Ymrwymiadau budd-daliadau ymddeol	(3,958)		(3,958)
Darpariaethau hirdymor	(48)		(48)
Atebolrwydd trethi a ohiriwyd	(5)		(5)
Taliadau eraill	(48)		(48)
	(4,565)	**-**	**(4,565)**
Cyfanswm atebolrwydd	**(7,416)**	**(1)**	**(7,417)**
Atebolrwydd net	**(2,038)**	**(3)**	**(2,041)**
Ecwiti			
Cyfrif elw a cholled	(3,085)	(11)	(3,096)
Cronfa warchod	-	8	8
Cronfa cyfnewidfa dramor	8		8
Cronfeydd eraill*	1,035		1,035
Ecwiti a briodolir i ddaliwr ecwiti rhiant-gwmni	**(2,042)**	**(3)**	**(2,045)**
Diddordeb lleiafrifol	4	-	4
Cyfanswm ecwiti	**(2,038)**	**(3)**	**(2,041)**

*Mae'r cronfeydd eraill yn cynnwys cronfa wrth gefn y Post Brenhinol £801m, cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig £171m ac Arall £63m.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad incwm y Grŵp ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 26 Medi 2004

	GAAP DG £m	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19 £m	Ewyllys da IFRS 3 £m	Is-gwmnïau/C-F IAS 28/31 £m	Tâl Gwyliau IAS 19 £m	SAAR £m
Refeniw	**4,327**					**4,327**
Costau pobl	**(2,465)**	**(46)**			**33**	**(2,478)**
Cyflogau	**(2,119)**				33	**(2,086)**
Pensiynau	**(191)**	(46)				**(237)**
Nawdd Cymdeithasol	**(155)**					**(155)**
Costau dosbarthu a chludo	**(400)**					**(400)**
Costau gweithredu eraill	**(1,335)**		5			**(1,330)**
Cyfran elw o is-gwmnïau a chyd-fentrau	**21**		2	(10)		**13**
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol	**148**	**(46)**	**7**	**(10)**	**33**	**132**
Eitemau eithriadol gweithredol	**(115)**					**(115)**
Elw gweithredol	**33**	**(46)**	**7**	**(10)**	**33**	**17**
Colled ar werthu ymgymeriad atodol	**-**					**-**
Elw ar werthu eiddo, offer a pheiriannau	**16**					**16**
Elw cyn ariannu a threthi	**49**	**(46)**	**7**	**(10)**	**33**	**33**
Costau ariannu	**(20)**					**(20)**
Cyllid incwm	**26**	29				**55**
Elw cyn trethi	**55**	**(17)**	**7**	**(10)**	**33**	**68**
Trethi	**(2)**	(19)		10		**(11)**
Elw ar gyfer y cyfnod	**53**	**(36)**	**7**	**-**	**33**	**57**
Elw yn cael ei briodoli i:						
Ddaliwr ecwiti'r rhiant-gwmni	**53**	(36)	7	-	33	**57**
Diddordeb lleiafrifol	**-**					**-**

Datganiad incwm a gwariant y Grŵp ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 26 Medi 2004

	Adroddwyd eisoes dan GAAP DG £m	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19 £m	Ewyllys da IAS 38 £m	Is-gwmnïau/C-F IAS 28/31 £m	Tâl gwyliau IAS 19 £m	Ail-ddatganwyd dan SAAR £m
Elw ar gyfer y cyfnod	53	(36)	7	-	33	57
Gwahaniaethau trosi ar fuddsoddiadau net arian tramor						-
Enillion a cholledion actiwarial ar gynlluniau budd-daliadau a ddiffiniwyd		59				59
Trethi ar eitemau a gymerwyd yn uniongyrchol i ecwiti		12				12
Cyfanswm incwm a chostau a gydnabuwyd ar gyfer y cyfnod	**53**	**35**	**7**	**-**	**33**	**128**
A briodolir i:						
Daliwr ecwiti'r rhiant-gwmni						128
Diddordeb lleiafrifol						**-**

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mantolen y Grŵp ar 26 Medi 2004

	GAAP DG £m	Ailddosbarthiad £m	Treth Incwm a Phensiynau IAS 12 & 19 £m	Ewyllys da IFRS 3 £m	Asedion Anghyffyrddadwy IAS 38 £m	Tâl Gwyliau IAS 19 £m	Cyfwerth-ag-arian IAS 7 £m	Cymhellion Prydles SIC 15 £m	SAAR £m
Asedion anghyfredol									
Eiddo, offer a pheiriannau	1,552								1,552
Ewyllys da	-	109		7	(1)				115
Asedion anghyffwrddadwy	123	(109)			1				15
Asedion ariannol/buddsoddiadau	135								135
Derbyniadau eraill	-	18							18
	1,810	18	-	7	-	-		-	1,835
Asedion cyfredol									
Llechresi	32								32
Masnach a derbyniadau eraill	1,659	(18)	(718)						923
Asedion riannol/buddsoddiadau	1,019						(326)		693
Arian a chyfwerth-ag-arian	968						326		1,294
	3,678	(18)	(718)	-		-		-	2,942
Asedion anghyfredol a ddelir ar werth	-								-
Cyfanswm asedion	5,488	-	(718)	7	-	-		-	4,777
Atebolrwydd cyfredol									
Masnach a thaliadau eraill	(2,410)	168				(7)		(8)	(2,257)
Treth incwm yn daladwy	-	(18)							(18)
Atebolrwydd ariannol – benthyciadau gyda llogau	-	(150)							(150)
Darpriaethau byrdymor	-	(195)							(195)
	(2,410)	(195)	-	-	-	(7)		(8)	(2,620)
Atebolrwydd anghyfredol									
Atebolrwydd ariannol – gyda llogau	-	(509)							(509)
Ymrwymiad budd-dal ymddeol	-		(4,402)						(4,402)
Darpariaethau hirdymor	(338)	284							(54)
Atebolrwydd trethi a ohiriwyd	-	(89)	88						(1)
Taliadau eraill	(549)	509							(40)
	(887)	195	(4,314)	-	-	-		-	(5,006)
Cyfanswm atebolrwydd	(3,297)	-	(4,314)	-	-	(7)		(8)	(7,626)
Asedion/(atebolrwydd) net	2,191	-	(5,032)	7	-	(7)		(8)	(2,849)
Ecwiti									
Enillion a gadwyd	1,103		(5,032)	7		(7)		(8)	(3,937)
Cronfa warchod	-								-
Trosiadau arian tramor	-								-
Cronfeydd eraill*	1,088								1,088
Ecwiti a briodolir i ddaliwr cwiti	2,191	-	(5,032)	7		(7)		(8)	(2,849)
Diddordeb lleiafrifol	-	-	-	-		-		-	-
Cyfanswm ecwiti	2,191	-	(5,032)	7	-	(7)		(8)	(2,849)

*Mae'r cronfeydd eraill yn cynnwys cronfa wrth gefn Post Brenhinol £782m, cronfa wrth gefn y Rhwydwaith Gwledig £243m ac Arall £63m.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad llif arian y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 26 Medi 2004

	GAAP DG £m	Datganiadau llif arian IAS7 £m	Treth Incwm a Phensiwn IAS 12 & 19 £m	Ewyllys da IAS 38 £m	Is-gwmnïau/C-F IAS 28/31 £m	Tâl Gwyliau IAS 19 £m	Ail-ddatgan SAAR £m
Llif arian o weithgareddau gweithredol							
Elw gweithredol cyn eitemau eithriadol *	148		(46)	7	(10)	33	132
Dadbrisio ac amorteiddiad	75			(5)			70
Symudiadau anariannol eraill (elw o is-gwmnïau a chyd-fentrau)	(21)			(2)	10		(13)
	202	-	(46)	-	-	33	189
Newidiadau mewn cyfalaf gweithredol	(100)		46			(33)	(87)
Taliadau ariannol mewn perthynas ag eitemau eithriadol	(214)						(214)
Arian a ddefnyddiwyd mewn gweithrediadau	(112)	-	-	-	-	-	(112)
Treth incwm a adenillwyd	8						8
All-lif ariannol net o weithgareddau buddsoddi	(104)	-	-	-	-	-	(104)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi							
Elw o werthu eiddo, offer a pheiriannau	23						23
Difidendau a dderbyniwyd gan is-gwmnïau a chyd-fentrau	14						14
Incwm buddsoddiad (llogau) a dderbyniwyd	26						26
Prynu eiddo, offer a pheiriannau	(78)						(78)
Gwerthu ymgymeriad atodol	(3)						(3)
Prynu asedion ariannol eraill	(20)	10					(10)
All-lif ariannol met o weithgareddau buddsoddi	(38)	10	-	-	-	-	(28)
All-lif ariannol net cyn gweithgareddau ariannu	(142)	10	-	-	-	-	(132)
Llif arian o weithgareddau ariannu							
Talu atebolrwydd prydles ariannu	(17)						(17)
Ad-dalu benthyciadau	(3)						(3)
Costau ariannu (llogau) a dalwyd	(21)						(21)
Benthyciadau newydd	102						102
Mewnlif ariannol net o weithgareddau ariannu	61	-	-	-	-	-	61
Gostyngiad net mewn arian a chyfwerth-ag-arian	(81)	10					(71)
Arian a chyfwerth-ag-arian ar ddechrau'r cyfnod**	1,049	316					1,365
Arian a chyfwerth-ag-arian ar ddiwedd y cyfnod	968	326	-	-	-	-	1,294

*Mae'r elw gweithredol cyn eitemau eithriadol o £399m ar ôl cymryd i ystyriaeth £34m elw o is-gwmnïau a chyd-fentrau. Mae hyn yn cymharu gydag elw gweithredol a gyhoeddwyd o £365m dan GAAP DG, a oedd cyn cymryd i ystyriaeth yr elw £21m o is-gwmnïau a chyd-fentrau.

**Diffinnir arian a chyfwerth-ag-arian dan GAAP DG fel arian, tra - dan SAAR - mae arian a chyfwerth-ag-arian yn cynnwys buddsoddiadau gyda dyddiad aeddfedu lai na thri mis ar ddyddiad caffaeliad a chronfeydd y farchnad ariannol yn unol â'r polisi cyfrifyddeg a ddiwygiwyd. Mae'r addasiad o £326m yn adlewyrchu ailddosbarthiad buddsoddiadau byrdymor priodol fel cyfwerth-ag-arian.

Polisïau cyfrifeg

Mae mabwysiadu SAAR wedi arwain at newidiadau ym mholisïau cyfrifyddeg y Grŵp. Y rhai sydd wedi newid yw:

Sylfaen cyfrifeg

Paratowyd datganiadau ariannol ail-ddatganedig Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Cwmni) yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) fel y nodwyd yn y Cyflwyniad a'r Sylfaen Paratoi ar dudalen 3.

Mae Grŵp y Post Brenhinol ccc yn agored i'r risg o gael ei ddirwyo gan y rheolydd diwydiant a gorfod talu iawndal i rai cwsmeriaid, o ganlyniad i beidio â chyflawni'r targedau gweithredol a bennir gan y Rheolydd yn nhrwydded y Cwmni. Bydd swm dirwyon a iawndal o'r fath yn cael ei benderfynu gan y Rheolydd ar ôl cyflwyniadau pellach gan y Cwmni ac nid oes gwybodaeth bellach yn cael ei datgelu ar hyn o bryd oherwydd gellid disgwyl y byddai'n peryglu canlyniad y broses honno.

Sylfaen cyfnerthiad

Mae'r datganiadau ariannol a gyfnerthwyd yn cynnwys cyfrifon Daliadau'r Post Brenhinol ccc a'i ymgymeriadau atodol. Mae datganiadau ariannol is-gwmnïau'n cael eu paratoi ar gyfer yr un flwyddyn adrodd â'r rhiant-gwmni, gan ddefnyddio polisïau cyfrifyddeg cyson.

Mae'r holl falansau a thrafodaethau mewn- Grŵp, gan gynnwys elw heb ei wireddu yn deillio o drafodaethau mewn- Grŵp wedi eu dileu yn llawn.

Mae is-gwmnïau'n cael eu cyfnerthu o'r dyddiad pan geir rheolaeth gan y Grŵp ac yn gorffen cael eu cyfnerthu o'r dyddiad pan nad yw rheolaeth bellach gan y Grŵp. Os oes colled rheolaeth o is-gwmni, mae'r datganiadau ariannol a gyfnerthwyd yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer y rhan o'r flwyddyn adrodd pan fo gan y Cwmni reolaeth.

Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau a chyd-fentrau

Mae buddsoddiadau'r Grŵp yn ei is-gwmnïau a chyd-fentrau yn cael eu cyfrifo dan y dull ecwiti o gyfrifeg. Dan y dull ecwiti, mae'r buddsoddiad yn cael ei gynnwys ar y fantolen ar gost ynghyd â newidiadau ar ôl caffaeliad yng nghyfran y Grŵp o asedion net yr is-gwmni/cyd-fenter, llai unrhyw amhariad mewn gwerth. Mae'r datganiad incwm yn adlewyrchu cyfran y Grŵp o ganlyniadau gweithrediadau'r is-gwmni/cyd-fenter.

Mae'r dyddiadau adrodd a pholisïau cyfrifyddeg ar gyfer is-gwmnïau a chyd-fentrau yn gyson gyda rhai'r Grŵp.

Refeniw

Mae refeniw'n cynnwys arian derbyniadwy yn uniongyrchol gan gwsmeriaid ar ôl addasu ar gyfer asesiad o stampiau rhagdaledig a gwerthiannau yn nwylo'r cyhoedd. Nid yw refeniw'n cynnwys TAW.

Elw gweithredol

Elw gweithredol yw'r elw ar weithrediadau arferol, normal, ailadroddus y busnes. Mae hyn yn cynnwys refeniw, costau pobl, costau gweithredu gan gynnwys dosbarthu a chludo, a chyfran y Post Brenhinol o elw o is-gwmnïau a chyd-fentrau. Nodir eitemau eithriadol gweithredol ar wahân.

Eitemau eithriadol gweithredol

Mae eitemau eithriadol gweithredol yn eitemau anarferol, anaml neu annormal o incwm neu wariant. Maent yn dod o ddigwyddiadau neu drafodaethau sy'n syrthio o fewn gweithgareddau arferol ac sydd, yn unigol, neu os o fath tebyg, gyda'i gilydd angen eu datgelu oherwydd eu maint neu nifer, ar wahân yn y datganiadau ariannol.

Ewyllys da

Mesurir ewyllys da o gaffaeliadau ar gost, sef swm dros werth teg ystyriaeth dros werth teg yr asedion net adnabyddadwy ar wahân a brynwyd. Yn unol â SAAR 3, nid yw ewyllys da yn cael ei amorteiddio.

Arolygir ewyllys da ar gyfer amhariad, yn flynyddol neu'n amlach os bydd digwyddiadau neu amgylchiadau'n awgrymu bod y gwerth cario wedi ei amharu. Cydnabyddir colled amhariad yn ôl y swm gan yr hyn y mae gwerth cario'r ased yn fwy na'r swm adferadwy, sef yr uchaf o werth gwireddu net yr ased a'i werth mewn defnydd.

Dyrennir ewyllys da i unedau cynhyrchu arian i ddibenion profi amhariad.

Wrth gyfrifo elw neu golled ar werthu is-gwmni, neu gorff a reolir ar y cyd, mae maint cario ewyllys da mewn perthynas â'r corff a werthwyd yn cael ei gynnwys gyda'r asedion net perthnasol.

Asedion anghyffwrddadwy

Caiff asedion anghyffwrddadwy a brynwyd ar wahân eu cyfalafu ar gost. Mae asedion anghyffwrddadwy a brynir fel rhan o fusnes yn cael eu cyfalafu ar wahân i ewyllys da os gellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy o'u cydnabod am y tro cyntaf. Asesir oes ddefnyddiol asedion anghyffwrddadwy fel cyfyngedig neu anghyfyngedig. Eir ag amorteiddiad art asedion anghyffwrddadwy gydag oes gyfyngedig yn flynyddol i'r datganiad incwm. Arolygir asedion anghyffwrddadwy gydag oes ddefnyddiol anghyfyngedig yn flynyddol ar gyfer amhariad. Cydnabyddir colled amhariad yn ôl y swm y mae gwerth cario'r ased yn fwy na'r swm adferadwy, sef yr uchaf o werth gwireddu net ased a'i werth mewn defnydd.

Nid yw asedion anghyffwrddadwy, ac eithrio costau datblygu, a grëir o fewn busnes yn cael eu cyfalafu ac mae gwariant yn cael ei ddebydu yn erbyn elw yn y flwyddyn pan achosir gwariant.

Polisïau Cyfrifeg (parhad)

Eiddo, offer a pheiriannau

Cydnabyddir eiddo, offer a pheiriannau ar gost, gan gynnwys costau a briodolir wrth ddod ag ased i gyflwr gweithredol ar gyfer ei ddefnydd bwriedig.

Darperir dadbrisiad eiddo, offer a pheiriannau ar sail llinell syth trwy gyfeirio at y gost wreiddiol ac oes economaidd ddefnyddiol weddillol asedion a'u gwerthoedd gweddillol tebygol. Arolygir oes ddefnyddiol a gwerthodd gweddillol yn flynyddol ac fe addasir, os yn berthnasol, ar sail arfaethedig. Yr oes a roddir i brif gategorïau eiddo, offer a pheiriannau a'r oes weddillol yw

	Oes weddillol ar gyfartaledd	Ystod oesau asedion
Tir ac adeiladau		
Tir rhyddfraint	Heb ddibrisio	Heb ddibrisio
Adeiladau rhyddfraint	14 mlynedd	Hyd at 50 mlynedd
Tir ac adeiladau prydles	9 mlynedd	Y byrraf rhwng cyfnod y brydles, 50 mlynedd neu oes ddefnyddiol weddillol debygol
Offer a pheiriannau	5 mlynedd	3-15 mlynedd
Cerbydau modur ac ôl-gerbydau	3 blynedd	1-12 blynedd
Gosodion ac offer	2 flynedd	2-15 mlynedd

Perfformir arolygon amhariad eiddo, offer a pheiriannau pan fo awgrym o amhariad fel y diffinnir gan IAS 36 Amhariad Asedion.

Mae eiddo sydd wedi ei adnabod gan y Cwmni fel eiddo nad oes ei angen mwyach ar gael i'w werthu. Pan fo awdurdod i farchnata eiddo yn y categori hwn wedi ei gymeradwyo ac mae'r eiddo'n wag ac felly ar gael, caiff ei drosglwyddo yn unol â SAAR i gategori ar wahân ar y fantolen. Disgwylir i eiddo o'r fath gynhyrchu llif arian economaidd trwy werthu'r eiddo yn hytrach na gan weithgareddau gweithredol.

Prydlesi

Mae prydlesi ariannu, sy'n trosglwyddo i'r Grŵp yn sylweddol yr holl risgiau a manteision ynghlwm wrth berchnogaeth yr eitem a brydlesir, yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles ar werth teg yr eiddo a brydlesir neu, os yn is, ar werth presennol y taliadau prydles lleiaf. Rhennir taliadau prydles rhwng y taliadau ariannu a gostyngiad atebolrwydd y brydles er mwyn cyflawni cyfradd gyson o logau ar falans gweddillol yr atebolrwydd. Debydir taliadau ariannu yn uniongyrchol yn erbyn incwm.

Caiff asedion prydles a gyfalafwyd eu dibrisio dros y cyfnod byrraf rhwng oes ddefnyddiol debygol yr ased neu dymor y brydles.

Dosbarthir prydlesi lle mae'r prydleswr yn cadw'n sylweddol risgiau a manteision perchnogaeth yr ased fel prydlesi gweithredu ac fe godir rhent i'r cyfrif elw a cholled dros gyfnod y brydles. Cydnabyddir buddion cyfanrif cymhellion fel gostyngiad mewn costau rhent dros gyfnod y brydles ar sail llinell syth.

Llechresi

Caiff llechresi eu prisio ar yr isaf rhwng cost a gwerth net a wireddir. Mae llechresi yn cynnwys gwisgoedd, beiciau a phapurach ac yn achos Gwasanaethau Cownter hefyd yn cynnwys stoc adwerthu.

Masnach a derbyniadau eraill

Cydnabyddir derbyniadau masnach a'u cario ar swm gwreiddiol yr anfoneb llai lwfans ar gyfer unrhyw symiau na ellir eu casglu. Gwneir amcangyfrif ar gyfer dyled amheus pan nad yw casglu'r swm llawn bellach yn debygol. Diddymir dyledion gwael pan gânt eu hadnabod.

Arian a chyfwerth-ag-arian

Mae arian ac adneuon byrdymor yn y fantolen yn cynnwys arian yn y banc ac mewn llaw ac adneuon byrdymor a wneir gyda dyddiad aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai. At hyn, mae'r Grŵp yn defnyddio cronfeydd y Farchnad Arian fel ffynhonnell arian parod, a werthir a'u prynu yn ddyddiol i fodloni gofynion ariannol y busnes. Caiff y cronfeydd hyn hefyd eu categoreiddio fel cyfwerth-ag-arian.

For the purpose of the cash flow statement, cash and cash equivalents consist of cash and cash equivalents as defined above, net of bank overdrafts.

Buddsoddiadau

Mae'r Grŵp wedi dilyn darpariaethau trosiannol SAAR 1 i fabwysiadu IAS 32 ac IAS 39 o 28 Mawrth 2005. Caiff yr holl fuddsoddiadau eu cydnabod ar gost i ddechrau, sef gwerth teg yr ystyriaeth a roddwyd ac - ac eithrio ar gyfer buddsoddiadau a nodwyd fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu - maent yn cynnwys taliadau caffaeliad sy'n gysylltiedig gyda'r buddsoddiad.

Ar ôl cydnabyddiaeth ragarweiniol, mae buddsoddiadau a nodir fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu, yn cael eu mesur ar werth teg. Cydnabyddir enillion neu golledion ar fuddsoddiadau a ddelir ar gyfer masnachu yn y datganiad incwm.

Dosbarthir asedion ariannol an-neilliannol gyda thaliadau sefydlog neu benderfynadwy ac aeddfedrwydd penodol fel rhai a ddelir tan aeddfedu pan fo gan y Grŵp fwriad positif a gallu i'w cadw hyd aeddfedrwydd. Caiff asedion ariannol a ddelir hyd aeddfedrwydd eu cario ar

Polisïau cyfrifeg (parhad)

gost amorteiddio. Cyn 28 Mawrth 2005, daliodd y Grŵp fuddsoddiadau o'r fath ar gost hanesyddol llai unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad, ac eithrio gwarannau gild y llywodraeth a ddatganwyd ar werth y farchnad ac a gaiff nawr eu categoreiddio fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu.

Treth incwm a threthi a gaiff eu gohirio

Mae'r tâl ar gyfer trethi cyfredol yn seiliedig ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn wedi eu haddasu ar gyfer eitemau na ellir eu hasesu neu rai wedi eu gwrthod. Caiff ei gyfrifo trwy ddefnyddio cyfraddau sydd wedi eu gweithredu neu eu gweithredu'n sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

Darperir trethi a ohirir, gan ddefnyddio'r dull atebolrwydd, ar yr holl wahaniaethau dros dro ar ddyddiad y fantolen rhwng sylfaen trethi asedion ac atebolrwydd a'u symiau cario i ddibenion adrodd ariannol.

Cydnabyddir atebolrwydd treth a ohirir ar gyfer yr holl wahaniaethau trethu dros dro ac eithrio:

- Cydnabyddiaeth wreiddiol ewyllys da;
- Cydnabyddiaeth wreiddiol ased neu atebolrwydd mewn trafodaeth nad yw'n gyfuniad busnes ac, adeg y drafodaeth, nad yw'n effeithio'r elw cyfrifo na'r elw neu'r golled drethadwy; a
- Gwahaniaethau trethu dros dro sy'n gysylltiedig gyda buddsoddiadau mewn is-gwmnïau, cwmnïau atodol a buddiannau mewn cyd-fentrau, lle mae amseriad gwrthdroad y gwahaniaethau dros dro yn medru cael ei reoli ac mae'n debygol na fydd y gwahaniaeth dros dro yn gwrthdroi yn y dyfodol rhagweladwy.

Ac eithrio'r hyn a nodir isod, cydnabyddir asedion trethi a ohirir ar gyfer yr holl wahaniaethau dros dro didynadwy, cario drosodd asedion trethi nas defnyddiwyd a cholledion trethi nas defnyddiwyd, i'r pwynt lle mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn erbyn yr hwn y gellir defnyddio'r gwahaniaethau dros dro didynadwy, cario trosodd asedion trethi, a cholledion trethi nas defnyddiwyd. Ni chaiff asedion trethi a ohirir eu cydnabod o ran:

- Gwahaniaethau dros dro didynadwy yn deillio o gydnabyddiaeth wreiddiol is-gwmnïau a buddiant mewn cyd-fentrau mewn trafodaeth nad yw'n gyfuniad busnes ac, adeg y drafodaeth, nad yw'n effeithio'r elw cyfrifo na'r elw neu'r golled trethi, a
- Gwahaniaethau dros dro didynadwy sy'n gysylltiedig gyda buddsoddiad mewn is-gwmni a buddiant mewn cyd-fenter, ac eithrio i'r graddau y mae'n debygol y bydd y gwahaniaethau dros dro yn gwrthdroi yn y dyfodol rhagweladwy a bydd yr elw trethadwy ar gael yn erbyn yr hwn y defnyddir y gwahaniaeth dros dro.

Arolygir swm cario asedion trethi a ohirir ar ddyddiad pob mantolen a'i gynyddu neu ei ostwng fel bod elw trethi digonol ar gael i ganiatáu defnyddio'r cyfan neu ran o'r asedion trethi a ohiriwyd.

Caiff asedion ac atebolrwydd trethi a ohirir eu mesur ar y cyfraddau trethi y disgwylir y byddant yn berthnasol i'r cyfnod pan wireddir yr ased trethi neu pan gaiff yr atebolrwydd ei setlo, yn seiliedig ar y cyfraddau trethi (a'r cyfreithiau trethi) a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

Nid yw balansau trthi a ohirir yn cael eu disgowntio.

Incwm a ohirir

Mae'r Post Brenhinol yn adlewyrchu addasiad i refeniw a dderbyniwyd ar gyfer gwasanaeth nad yw wedi ei ddarparu eto fel atebolrwydd ar y fantolen. Cyfeirir at yr atebolrwydd fel SITHOP/MITHOP (stampiau, credyd mesurydd yn nwylo'r cyhoedd). Mae'r fethodoleg i gyfrifo'r atebolrwydd yn cymryd i ystyriaeth daliadau stamp preifat, daliadau stamp busnes, gwerthiannau stamp adwerthol, gwerthiannau stamp cyfanwerthol a chredyd mesurydd. Caiff ei gyfrifo'n fisol gan gymryd canlyniadau ystadegol y mis blaenorol i ystyriaeth.

Polisi taliadau cyflenwyr

Polisi'r Post Brenhinol yw defnyddio ei rym prynu yn deg. Cytunir telerau talu ymlaen llaw ar gyfer yr holl brif gontractau. Ar gyfer trafodaethau gwerth is, mae telerau talu safonol ar y gorchymyn prynu yn berthnasol. Polisi'r Post Brenhinol yw gwneud taliadau o fewn 45 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys. Mae'r Post Brenhinol wedi ceisio cydymffurfio gyda Chod Ymarfer Gwell Taliadau'r DTI, a ddisodlodd Cod Taliadau Prydlon y CBI.

Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y Grŵp ymrwymiad cyfredol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Mae'n debygol bod angen all-lif adnoddau yn ymgorffori manteision economaidd i setlo'r ymrwymiad a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad. Os yw effaith gwerth amser arian yn berthnasol, pennir darpriaethau trwy ddisgowntio llif arian disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfradd cyn trethi sy'n adlewyrchu asesiadau'r farchnad bresennol o werth amser arian a, lle'n briodol, y risgiau sy'n benodol i'r atebolrwydd.

Pensiynau a budd-daliadau ôl-ymddeol eraill

Mae aelodaeth cynlluniau pensiwn galwedigaeth yn agored i'r rhan fwyaf o weithwyr llawn amser y DG yn y Grŵp. Mae holl aelodau'r cynlluniau budd-dal a ddiffiniwyd wedi eu contractio allan o'r rhan enillion-gysylltiedig o gynllun pensiwn y Wlad. Mae is-gwmnïau tramor yn gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer pensiwn a budd-daliadau ôl-ymddeol eraill.

Mesurir asedion cynllun pensiwn ar werth teg, a mesurir atebolrwydd ar sail actiwarial gan ddefnyddio'r dull credyd uned amcangyfrifiedig a'u disgowntio ar y gyfradd sydd gyfwerth â'r gyfradd ddychweliad bresennol ar fond corfforaethol ansawdd uchel arian cyfatebol i'r gyfradd ddychweliad bresennol a chyfnod atebolrwydd y cynllun. Ceir prisiad actiwarial llawn o leiaf dair gwaith y flwyddyn ac fe gânt eu diweddaru ar ddyddiad y fantolen. Cyflwynir yr ased buddion neu atebolrwydd ar wahân ar wyneb y fantolen.

Polisïau cyfrifo (parhad)

Ar gyfer cynlluniau budd-daliadau a ddiffiniwyd y symiau a ddebydir i elw gweithredol yw'r costau gwasanaeth presennol ac unrhyw enillion a cholledion ar gytundebau a chwtogiadau. Fe'u cynhwysir fel rhan o'r costau staff. Debydir costau gwasanaeth yn y gorffennol i elw gweithredol

Ar unwaith os breinir budd-daliadau. Os nad yw'r budd-daliadau wedi eu breinio ar unwaith, cydnabyddir y costau gan randaliadau cyfartal dros y cyfnod nes bydd breinio'n digwydd. Cynhwysir costau llogau a'r dychweliad disgwyliedig fel incwm ariannu arall. Cydnabyddir enillion a cholledion net o drethi a ohiriwyd ar unwaith yn y datganiad o incwm a gwariant a gydnabuwyd.

Delir asedion y cynlluniau mewn cronfeydd ymddiriedolwyr a weinyddir ar wahân.

Debydir cyfraniadau'r Grŵp i gynlluniau cyfraniad a ddiffiniwyd i'r cyfrif elw a cholled yn y cyfnod y mae'r cyfraniadau'n berthnasol iddynt.

Ymchwil a datblygiad

Diddymir gwariant ar ymchwil yn y flwyddyn y caiff ei achosi. Gelir cario trosodd gwariant ar broject unigol os gellir sicrhau yn rhesymol ei adferadwyedd yn y dyfodol. Bydd y costau wedyn yn cael eu hamorteiddio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol. Diddymir unrhyw golledion amhariad ar unwaith i incwm.

Arian tramor

Arian swyddogaethol a chyflwyniadol daliadau'r Post Brenhinol ccc yw sterling (£). Arian swyddogaethol is-gwmnïau tramor yn Ewrop yw'r ewro yn bennaf.

Cofnodir trafodaethau mewn arian tramor ar y cyfraddau cyfnewid sy'n bodoli ar ddyddiadau'r trafodaethau unigol.

Caiff asedion ariannol ac atebolrwydd mewn arian tramor eu hail-drosi ar y gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar ddyddiad y fantolen.

Ail-drosir asedion ac atebolrwydd gweithrediadau tramor ar y gyfradd gyfnewid sy'n bodoli ar ddyddiad y fantolen. Trosir cyfrifon elw a cholled gweithrediadau tramor ar gyfraddau cyfnewid ar gyfartaledd y cyfnod adrodd. Cymerir y gwahaniaethau cyfnewid ôl-drethol yn deillio o'r trosiad, ers dyddiad trosi i SAAR, yn uniongyrchol o elfen ecwiti ar wahân.

Offerynnau ariannol deilliannol

Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau deilliannol megis contractau arian tramor er mwyn rheoli proffil risg unrhyw risg sylfaenol y Grŵp yn unol â pholisïau rheoli trysorlys y Grŵp. Mae offerynnau ariannol deilliannol o'r fath yn cael eu datgan ar werth teg i ddechrau.

I ddibenion cyfrifyddeg gwarchod, cânt eu dosbarthu naill ai fel gwarchoded gwerth teg pan fônt yn gwarchod y risg i newidiadau yng ngwerth teg ased cydnabyddedig neu atebolrwydd; neu warchod llif arian pan fônt yn gwarchod amrywiad mewn llif arian sydd naill ai'n briodoladwy i risg penodol sy'n gysylltiedig gydag ased cydnabyddedig neu atebolrwydd neu drafodaeth a ragwelwyd.

Mewn perthynas â gwarchod llif arian (contractau arian tramor) i warchod ymrwymiadau cadarn sy'n cyflawni amodau ar gyfer cyfrifeg gwarchod arbennig, cydnabyddir y gyfran o'r elw neu'r golled ar yr offeryn gwarchod fel gwarchodaeth effeithiol yn uniongyrchol mewn ecwiti a chydnabyddir y gyfran aneffeithiol mewn elw neu golled net.

Pan fo'r ymrwymiad gwarchod cadarn yn arwain at gydnabod ased anariannol neu atebolrwydd anariannol, yna, adeg cydnabod yr ased neu'r atebolrwydd, mae'r enillion neu'r colledion cysylltiedig a gydnabuwyd eisoes mewn ecwiti yn cael eu cynnwys yn y mesuriad rhagarweiniol o gostau caffaeliad neu swm cario arall yr ased neu atebolrwydd. Ar gyfer yr holl warchodaeth llif arian eraill, mae'r enillion neu'r colledion a gydnabyddir mewn ecwiti yn cael eu trosglwyddo i'r datganiad incwm yn yr un flwyddyn â'r hon pan fo'r ymrwymiad cadarn gwarchodol yn effeithio'r elw a'r golled net, er enghraifft pan fydd gwerthiant yn y dyfodol yn digwydd mewn gwirionedd.

Ar gyfer deilliannau nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyfrifyddeg gwarchod, cymerir yr elw neu'r colledion yn deillio o newidiadau mewn gwerth teg yn uniongyrchol i'r datganiad incwm yn y cyfnod,

Mae cyfrifeg gwarchod yn dod i ben pan fo'r offeryn gwarchod yn dod i ben neu'n cael ei werthu, ei derfynu neu lle nad yw bellach yn gymwys ar gyfer hyn. Ar y pwynt hwnnw, cedwir unrhyw elw neu golled ar yr offeryn gwarchod a gydnabyddir mewn ecwiti nes bydd y drafodaeth a ragwelir wedi digwydd. Os na ddisgwylir i drafodaeth warchodol ddigwydd bellach, trosglwyddir yr elw neu'r golled a gydnabyddir mewn ecwiti i'r datganiad incwm ar gyfer y flwyddyn.

Benthyciadau gyda llogau a benthyciadau

Cydnabyddir yr holl fenthyciadau i ddechrau ar werth teg yr ystyriaeth a dderbyniwyd llai costau a ellir eu priodoli'n uniongyrchol.

Ar ôl cydnabyddiaeth wreiddiol, mae benthyciadau gyda llogau wedyn yn cael eu mesur ar gost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llogau effeithiol. Cyfrifir cost amorteiddiedig trwy gymryd i ystyriaeth unrhyw gostau cyflwyno, unrhyw ddisgownt neu bremiwm ar setlo.

Cydnabyddir enillion a cholledion mewn elw neu golled net pan ddatgydnabyddir atebolrwydd, ynghyd â thrwy'r broses amorteiddio.

Gwybodaeth adrannol

Mae'r Grŵp yn datgelu canlyniadau adrannol dan IAS 14. Prif fformat adrodd y Grŵp yw yn ôl adrannau busnes a'r ail fformat yw adrannau daearyddol. Trefnir y darnau gweithredol a'u rheoli ar wahân yn ôl natur y cynnyrch a'r gwasanaethau

Polisïau cyfrifo (parhad)

a ddarperir, gyda phob adran yn cynrychioli uned busnes strategol sy'n cynnig cynnyrch gwahanol ac yn gwasanaethu marchnadoedd gwahanol yn bennaf.

Busnes llythyrau'r Grŵp yw'r Post Brenhinol ac mae'n dosbarthu llythyrau i'r holl gyfeiriadau yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'r Post Brenhinol yn cynnig nifer o gynhyrchion i ddefnyddwyr busnes a domestig.

Mae Parcelforce Worldwide yn uned fusnes parseli yn gweithredu yn y DG.

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig yn gyfrifol am ganghennau 'cownteri' Swyddfa'r Post ar y stryd fawr ac yn cynnig cyfres o wasanaethau adwerthu i'w chwsmeriaid.

General Logistic Services yw'r busnes parseli yn Ewrop sy'n dosbarthu parseli i 34 o wledydd ledled y Byd ond yn bennaf yn Ewrop.

Pennir prisiau trosglwyddo rhwng adrannau busnes ar sail taliadau a geir trwy drafod gyda'r busnesau perthnasol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Barn archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005

Adroddiad archwilwyr annibynnol i'r Grŵp ar y datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol rhagarweiniol Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 sy'n cynnwys y Fantolen SAAR agoriadol ar 29 Mawrth 2004, y Datganiad Incwm, Datganiad Llif Arian a Datganiad Incwm a Gwariant a Gydnabuwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 a'r Fantolen ar 27 Mawrth 2005.

Gwneir yr adroddiad yn unig i'r Grŵp yn unol â'n llythyr cyflogaeth dyddiedig 8 Ebrill 2005. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni ddatgan i'r Grŵp y materion hynny y mae angen i ni eu nodi mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na thybio cyfrifoldeb neu atebolrwydd i unrhyw un ac eithrio'r Grŵp am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu'r farn a luniwyd gennym.

Cyfrifoldebau perthnasol cyfarwyddwyr ac archwilwyr

Cyfrifoldeb cyfarwyddwyr y Grŵp yw'r datganiadau SAAR rhagarweiniol hyn ac maent wedi eu paratoi fel rhan o drosiad y Grŵp i SAAR. Fe'u paratowyd yn unol â'r sylfaen a nodwyd yn y nodyn 'Sylfaen Paratoi' ar dudalen 3 i'r datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol, sy'n disgrifio sut cymhwyswyd SAAR dan SAAR 1, gan gynnwys y tybiaethau a wnaed gan y rheolwyr ynglŷn â'r safonau a'r dehongliadau a ddisgwylir a fydd yn effeithiol, a'r polisïau y disgwylir eu mabwysiadu, pan fo'r rheolwyr yn paratoi eu set gyntaf gyflawn o ddatganiadau ariannol SAAR ar 26 Mawrth 2006.

Ein cyfrifoldeb yw mynegi barn annibynnol ar y datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol yn seiliedig ar ein harchwiliad. Rydym wedi darllen gwybodaeth arall gyda'r datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol ac ystyried a yw'n gyson gyda'r datganiadau arianno SAAR rhagarweiniol. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y disgrifiad o newidiadau arwyddocaol mewn polisïau cyfrifyddeg ar dudalennau 3 i 5 a 14 i 18. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os down i wybod am unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau gyda'r fantolen agoriadol ragarweinio. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sylfaen barn archwilio

Ymgymerwyd â'r archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol ein bod yn cynllunio a pherfformio'r archwiliad i gael sicrhad rhesymol ynglyn ag a yw datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol rhagarweiniol. Mae archwiliad hefyd yn cynnwys asesu'r egwyddorion cyfrifyddeg a ddefnyddiwyd ac amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan y rheolwyr, ynghyd â gwerthuso cyflwyniad y datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol. Credwn fod ein harchwilio yn darparu sylfaen rhesymol ar gyfer ein barn.

Pwysleisio mater

Heb gymhwyso ein barn, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyflwyniad ar dudalen 3 yn esbonio pam fo posibilrwydd bod angen addasu'r datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol cyn y byddant yn cyfansoddi'r datganiadau ariannol SAAR terfynol. Yn fwy na hyn, tynnwn sylw at y ffaith mai dim ond set gyflawn o ddatganiadau ariannol gyda gwybodaeth ariannol gymharol a nodiadau esboniadol a fedr ddarparu cyflwyniad teg o sefyllfa ariannol, canlyniadau gweithrediadau a llif arian yn unol â SAAR, dan SAAR.

Barn

Yn ein barn, paratowyd y datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 ym mhob ystyr perthnasol, yn unol â'r sylfaen a nodwyd yn y Sylfaen Paratoi, sy'n disgrifio sut cymhwyswyd SAAR 1, gan gynnwys y tybiaethau a wnaed gan y rheolwyr ynglyn â safonau a dehongliadau a dybir yn effeithiol, a'r polisïau a ddisgwylir eu mabwysiadu, pan fydd y rheolwyr yn paratoi eu set gyntaf gyflawn o ddatganiadau ariannol SAAR ar 26 Mawrth 2006.

Ernst & Young LLP

Llundain

17 Tachwedd 2005

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Barn archwilio ar gyfer y fantolen ar 28 Mawrth 2005

Rydym wedi archwilio mantolen agoriadol ragarweiniol Daliadau'r Post Brenhinol ccc ar 28 Mawrth 2005 ("mantolen agoriadol ragarweiniol SAAR") a'r polisïau cyfrifyddeg cysylltiedig a nodwyd ar dudalennau 3 i 5 ac 14 i 18.

Gwneir yr adroddiad yn unig i'r Grŵp yn unol â'n llythyr cyflogaeth dyddiedig 8 Ebrill 2005. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni ddatgan i'r Grŵp y materion hynny y mae angen i ni eu nodi mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na thybio cyfrifoldeb neu atebolrwydd i unrhyw un ac eithrio'r Grŵp am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu'r farn a luniwyd gennym.

Cyfrifoldebau perthnasol cyfarwyddwyr ac archwilwyr

Cyfrifoldeb cyfarwyddwyr y Grŵp yw'r fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol ac mae wedi ei pharatoi fel rhan o drosiad Grŵp i SAAR. Fe'i paratowyd yn unol â'r sylfaen a nodwyd yn y nodyn 'Sylfaen Paratoi' ar dudalen 3 i'r datganiadau ariannol SAAR rhagarweiniol, sy'n disgrifio sut cymhwyswyd SAAR dan SAAR 1, gan gynnwys y tybiaethau a wnaed gan y rheolwyr ynglyn â'r safonau a'r dehongliadau a ddisgwylir a fydd yn effeithiol, a'r polisïau y disgwylir eu mabwysiadu, pan fo'r rheolwyr yn paratoi eu set gyntaf gyflawn o ddatganiadau ariannol SAAR ar 26 Mawrth 2006.

Ein cyfrifoldeb yw mynegi barn annibynnol ar y fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol yn seiliedig ar ein harchwiliad. Rydym wedi darllen gwybodaeth arall gyda'r fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol ac ystyried a yw'n gyson gyda'r fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y disgrifiad o newidiadau arwyddocaol mewn polisïau cyfrifyddeg ar dudalennau 3 i 5 a 14 i 18. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os down i wybod am unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau gyda'r fantolen agoriadol ragarweiniol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sylfaen barn archwilio

Ymgymerwyd â'r archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol ein bod yn cynllunio a pherfformio'r archwiliad i gael sicrhad rhesymol ynglyn ag a yw'r fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y symiau a'r datgeliadau yn y fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol. Mae archwiliad hefyd yn cynnwys asesu'r egwyddorion cyfrifyddeg a ddefnyddiwyd ac amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan y rheolwyr, ynghyd â gwerthuso cyflwyniad y fantolen agoriadol. Credwn fod ein harchwilio yn darparu sylfaen rhesymol ar gyfer ein barn.

Pwysleisio mater

Heb gymhwyso ein barn, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyflwyniad ar dudalen 3 yn esbonio pam fo posibilrwydd bod angen addasu'r fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol cyn y bydd yn cyfansoddi'r fantolen agoriadol SAAR derfynol. Yn fwy na hyn, tynnwn sylw at y ffaith mai dim ond set gyflawn o ddatganiadau ariannol gyda gwybodaeth ariannol gymharol a nodiadau esboniadol a fedr ddarparu cyflwyniad teg o sefyllfa ariannol, canlyniadau gweithrediadau a llif arian yn unol â SAAR, dan SAAR.

Barn

Yn ein barn, paratowyd y fantolen agoriadol SAAR ragarweiniol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 27 Mawrth 2005 ym mhob ystyr perthnasol, yn unol â'r sylfaen a nodwyd yn y Sylfaen Paratoi, sy'n disgrifio sut cymhwyswyd SAAR 1, gan gynnwys y tybiaethau a wnaed gan y rheolwyr ynglyn â safonau a dehongliadau a dybir yn effeithiol, a'r polisïau a ddisgwylir eu mabwysiadu, pan fydd y rtheolwyr yn paratoi eu set gyntaf gyflawn o ddatganiadau ariannol SAAR ar 26 Mawrth 2006.

Ernst & Young LLP

Llundain

17 Tachwedd 2005

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Barn archwilio ar gyfer yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben 26 Medi 2004

Adroddiad archwilwyr annibynnol i Ddaliadau'r Post Brenhinol ccc ar y wybodaeth ariannol SAAR ragarweiniol ar gyfer y chwe mis a ddaeth i ben 26 Medi 2004

Rydym wedi ein cyfarwyddo gan y cwmni i archwilio'r wybodaeth ariannol ragarweiniol gyfun ragarweiniol ar gyfer Daliadau'r Post Brenhinol ccc ("y Cwmni") a'i is-gwmnïau (ynghyd â'r Grŵp) am y chwe mis a ddaeth i ben 26 Medi 2004 sy'n cynnwys y datganiad incwm cyfun SAAR, mantolen gyfun SAAR, datganiad llif arian cyfun SAAR a'r datganiadau cyfun SAAR o incwm a gwariant ynghyd â pholisïau cyfrifyddeg cysylltiedig.

Gwneir yr adroddiad yn unig i'r Grŵp yn unol â chyfarwyddyd ym Mwletin 1999/4 'Arolwg o wybodaeth ariannol interim' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na thybio cyfrifoldeb neu atebolrwydd i unrhyw un ac eithrio'r Cwmni am ein gwaith, na'r casgliadau y deuwn iddynt.

Cyfrifoldebau perthnasol cyfarwyddwyr ac archwilwyr

Cyfrifoldeb cyfarwyddwyr y Cwmni yw'r wybodaeth ariannol SAAR interim ac mae wedi ei pharatoi fel rhan o drosiad Cwmni i SAAR. Fe'i paratowyd yn unol â'r sylfaen a nodwyd yn y nodyn 'Sylfaen Paratoi' ar dudalen 3, sy'n disgrifio sut cymhwyswyd SAAR dan SAAR 1, *Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y Tro Cyntaf*, gan gynnwys y tybiaethau a wnaed gan y rheolwyr ynglyn â'r safonau a'r dehongliadau a ddisgwylir a fydd yn effeithiol, a'r polisïau y disgwylir eu mabwysiadu, pan fo'r rheolwyr yn paratoi eu set gyntaf gyflawn o ddatganiadau ariannol SAAR ar 26 Mawrth 2006.

Sylfaen barn archwilio

Ymgymerwyd â'r archwiliad yn unol â chyfarwyddyd ym Mwletin 1999/4, 'Arolwg o wybodaeth ariannol interim' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwiolio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Gyfunol. Mae arolwg yn cynnwys yn bennaf gwneud ymholiadau i reolwyr Grŵp a defnyddio dulliau dadansoddol mewn perthynas â'r wybodaeth ariannol a data ariannol sylfaenol, ac yn seiliedig ar hynny, asesu os yw'r polisïau cyfrifyddeg a'r cyflwyniad wedi eu cymhwyso'n gyson, oni ddatgelwyd fel arall. Nid yw arolwg yn cynnwys trefniadau archwilio megis profion rheoli a dilysu asedion, tebygolrwydd a thrafodaethau. Mae'n sylweddol llai o ran sgôp nag archwiliad a wneir yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol ac felly'n rhoi lefel is o sicrwydd nag archwiliad. Felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio ar y wybodaeth ariannol SAAR interim ragarweiniol.

Pwysleisio mater

Heb gymhwyso ein barn, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyflwyniad ar dudalen 3 yn esbonio pam fo posibilrwydd bod angen addasu'r datganiadau ariannol SAAF rhagarweiniol cyn y byddant yn cyfansoddi'r datganiadau ariannol SAAF terfynol. Yn fwy na hyn, tynnwn sylw at y ffaith mai dim ond set gyflawn o ddatganiadau ariannol gyda gwybodaeth ariannol gymharol a nodiadau esboniadol a fedr ddarparu cyflwyniad teg o sefyllfa ariannol, canlyniadau gweithrediadau a llif arian y Cwmni yn unol â SAAR, dan SAAR.

Casgliad yr arolwg

Ar sail ein harolwg nid ydym yn ymwybodol o unrhyw newid perthnasol a ddylid ei wneud i'r wybodaeth ariannol fel y cyflwynwyd am y chwe mis yn dod i ben 26 Medi 2004.

Ernst & Young LLP

Llundain

17 Tachwedd 2005